PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

**ARHOLIAD MYNEDIAD**
**IONAWR 2020**

# Addysg ac Astudiaethau Plentyndod

**Amser - 1.5 awr**
**Atebwch ddau gwestiwn**

---

1. Mae plant yn dysgu trwy chwarae a thrwy weithgareddau o'u dewis eu hunain, sy'n cynorthwyo i feithrin annibyniaeth, rheolaeth ac ymreolaeth. Trafodwch a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn.

2. Mae ansawdd y cinio ysgol yn effeithio ar berfformiad academaidd disgyblion. Trafodwch y dadleuon sy'n gysylltiedig â'r mater hwn.

3. Dylai cynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol fod yr un peth i holl wledydd y Deyrnas Gyfunol (Cymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon). Trafodwch y prif faterion ar y naill ochr a'r llall yn y drafodaeth hon.

4. Dylai plant a phobl ifainc i gyd gael dysgu am iechyd a lles i wneud yn sicr eu bod yn cael y sgiliau i fyw bywyd iach a hapus. Trafodwch y datganiad hwn.

5. Mae Addysg Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar y plentyn; mae archwilio, darganfod, ac ymholi yn elfennau sy'n gyrru dysgu a datblygu. Trafodwch a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn.

6. Mae cyfrifoldeb ar ysgolion i ddarparu maes llafur eang a chytbwys i bob disgybl. Cyfiawnhewch eich ateb.

7. Beth yw ysgol ramadeg ac ym mha ffordd y mae hi'n wahanol i ysgol gyfun? A yw'n werth cael ysgolion gramadeg? Trafodwch y datganiad.

8. Beth yw ystafell ddosbarth amlddiwylliannol? Beth yw nodweddion ystafell ddosbarth amlddiwylliannol? Trafodwch nhw.